# Ysgol Mynydd Bychan

## ‘O’r fesen, derwen a dyf’

## Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/ 2021

## Governing Body Annual Report for the 2020/2021 Academic Year

**Rhagfyr 2021** **December 2021**

| | |
|---|---|
| Mae’n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol Ysgol Mynydd Bychan sy’n unol â gofynion adran 30 or’ Ddeddf Addysg 2002 a’r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011 (fel y’i diwygiwyd).<br><br>Gobeithio y byddwch chi’n mwynhau darllen am lwyddiannau’r ysgol eleni eto. Mae croeso i chi gysylltu gyda Chadeirydd y Corff Llywodraethol neu’r Pennaeth os hoffech chi drafod rhywbeth yn benodol neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd o’r adroddiad. | We are pleased to present the Annual Report of the Governors of Ysgol Mynydd Bychan in accordance with section 30 of the Education Act 2002 and the School Governors’ Annual Reports (Wales) Regulations 2011 (as amended).<br><br>We hope you will enjoy reading about our school’s successful year. You are welcome to get in touch with the Chair of the Governors or the Headteacher should you wish to have additional information about anything, or if you would like to make a comment about this report. |

## Gair o’r Gadair *A Note from the Chair*

| | |
|---|---|
| Fel y gwyddoch, mewn rhai ffyrdd bu’r flwyddyn academaidd ddiwethaf yn barhad o’r ail hanner yr un flaenorol, gyda’r pandemig yn parhau i sicrhau heriau a newidiadau i fywyd ysgol. Er mor braf oedd cyflwyniad y frechlyn i alluogi ysgolion i aros ar agor i raddau mwy na’r llynedd, mae’r pandemig yn dal i darfu mewn sawl ffordd.<br><br>Yn ogystal â dysgu trwy cyfnod clo cenedlaethol arall a gaeodd pob ysgol am rhan fwyaf o dymor | As you will all no doubt be aware, in some ways the last academic year has been a continuation of the second half of the previous one, with the pandemic continuing to bring about challenges and changes to school life. Whilst it has been pleasing that the roll out of the vaccine has enabled schools to remain open to a larger extent than last year, the pandemic has still continued to be disruptive in many ways. |

y Gwanwyn, roedd rhaid i'r athrawon nid yn unig dysgu plant yn yr ystafell ddosbarth ond hefyd dysgu arlein gyda phlant eraill oedd gartref, gan addysgu oddi cartref ar adegau, wrth orfod ynysu eu hunain. Yn fy marn i, dangoswyd gwydnwch aruthrol a'r cymhwyster i addasu (bron yn ddyddiol ar adegau) a bu'n amlwg mai eu blaenoriaeth drwyddi draw oedd addysg a lles yr holl ddisgyblion.

Cydnabyddwn hefyd pa mor anodd oedd parhad y sefyllfa i deuluoedd a hoffem ddiolch i'r holl rieni a gwarchodwyr am eu cefnogaeth, eu gwaith caled, a'u dyfalbarhad.

Rhaid rhoi canmoliaeth hefyd i'r disgyblion, sydd hefyd wedi gorfod addasu i'r newidiadau ậ'r gwahanol arferion yn dilyn y cyfnodau o gau'r ysgol. Yn dilyn y cyfnodau yma, mae wedi bod yn hyfryd gweld a chlywed y plant yn chwarae ar yr iard eto!

Rwy'n gwybod bod fy Nghyd–lywodraethwyr yn gytun ậ mi wrth ddweud bod y disgyblion wedi gadael argraff fawr arnom pan gawsom y cyfle i siarad ậ hwy. Eleni gan na allwn gyfarfod ậ'r disgyblion yn yr ysgol yn bersonol, cafwyd cyfarfodydd arlein gyda Chyngor yr ysgol a'r holl bwyllgorau eraill trwy gyfres o gyfarfodydd timau. Fel yn y blynyddoedd blaenorol cafodd eu brwdfrydedd a'u sgwrsio difyr argraff fawr arnom ac roedd yn amlwg eu bod yn datblygu i fod yn ddinasyddion ifanc gydag ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o faterion pwysig i'n cymdeithas. Credaf hefyd y gall ein Harweinwyr Ddigidol fy addysgu i llawer am Dechnoleg Gwybodaeth!

Yn anffodus, mae'n anochel i'r pandemig effeithio y clybiau a'r gweithgareddau allgyrsiol a gynigwyd gan yr ysgol. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, ceisiodd yr ysgol ddarparu cyfleoedd ychwanegol i'r disgyblion lle bynnag y bu'r modd a'r gobaith yw y parheir i gynnig mwy a mwy o'r cyfleoedd hyn maes o law, gan gynnwys adeiladu ar gysylltiadadau ậ'r gymuned leol. Gwn fod yr ysgol yn gweld hyn fel rhan hanfodol i helpu ein disgyblion i ddatblygu'n unigolion iach, hapus a chyflawn.

Mae'r ysgol wedi cario ymlaen i baratoi o ddifrif ar gyfer y Cwricwlwm ysgol newydd yng Nghymru a ddaw i rym yn 2022. Arweinir hyn at newidiadau yn yr addysgu ac fel y disgwylir, creu her enfawr i Miss Evans a'i staff wrth baratoi at hyn. Un rhan o'r gwaith llywodraethu yw gweithredu fel 'ffrind beirniadol' ac yn ein trafodaethau ậ Miss Evans ac aelodau eraill o'r

In addition to teaching throughout a further national lockdown and closing all schools for the majority of the Spring Term, the teachers have had to juggle teaching pupils in a classroom with other children isolating at home, or even having to teach from home while having to isolate themselves. In my view, they have shown tremendous resilience and an ability to adapt (on an almost daily basis at times), and it's clear that their priority throughout has been the education and welfare of all the pupils.

We also recognise how difficult this last year has continued to be for families, and would like to thank all parents and guardians for their support, hard work and determination.

Credit must also go to the pupils, who themselves have had to adapt to the measures and change in routines. Following the periods of school closure, it has been wonderful to see and hear the children playing on the playground again!

I know I speak for all my fellow-governors when I say that we continue to be hugely impressed by the pupils when we get opportunities to speak with them. This year, in the absence of being able to meet with pupils at the school in person, we met with the School Council and all the other committees via a series of Teams meetings. As in previous years, we were impressed by how engaged they all were and how well they spoke, and it was clear that they are developing into young citizens with an awareness and appreciation of important societal issues. I also think that our Digital Leaders could teach me a lot about I.T.!

Unfortunately, the pandemic has inevitably impacted upon the extracurricular clubs and activities that the school is able to offer. However, the school has sought to provide additional opportunities to the pupils wherever possible, as outlined in this report, and it is hoped that opportunities to do this further will increase in due course, including building upon links with our local community. I know that the school sees this as a crucial part of helping our pupils to develop into healthy, happy and well-rounded individuals.

The school has continued in earnest with its preparation for the new school curriculum in Wales, which is due to come into effect in 2022. This will lead to a radical change in the way that children in Wales are educated and, as you would expect, this presents a huge challenge to

Uwch Dim Rheoli ceir sicrwydd fod yr ysgol mewn sefyllfa ragorol o ran ei pharatoadau a'r camau a roddir ar waith hyd yma, i sicrhau parodrwydd yr ysgol erbyn cyflwyniad y Cwricwlwm Newydd. Yn ogystal ậ chofleidio'r heriau yma a grewyd gan y newid sylweddol yma, gwn fod yr athrawon yn gyffrous i weithredu y cyfleoedd yma a gyflwynir gan y ffordd newydd o addysgu.

Gwirfoddolwyr wrth gwrs yw'r Llywodraethwyr a thrwy'r flwyddyn ceir cyfarfodydd llawn Corff y Llywodraethwyr, Pwyllgorau a mynychu sesiynau hyfforddi a chynhaliwyd y cyfarfodydd yma arlein trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Y gobaith yw, yn y dyfodol agos, i ddychwelyd i ymweld ậ'r ysgol yn bersonol i'w gweld ar waith, bydd hyn yn fuddiol iawn i gael yr ymdeimlad o weithrediad ac ethos yr ysgol.

Hoffwn ar ran fy nghyd-lywodraethwyr, ddiolch i chi fel rhieni a gwarchodwyr am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol. Edrychwn ymlaen i gyd-weithio gyda chi a staff yr ysgol i sicrhau'r safonau uchaf i bob plentyn yn Ysgol Mynydd Bychan. Rhaid hefyd sôn am ein Cymdeithas Rhieni ac Athrawon anhygoel sydd unwaith eto wedi gweithio yn greadigol ac yn ddiflino gan godi swm gwych o arian a fydd o fudd uniongyrchol i holl ddisgyblion yr ysgol – gyda'r gweithgareddau amrywiol a drefnwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn, atgyfnerthwyd yr ymdeimlad o wir gymuned yr ysgol.

Fe welwch yn yr adroddiad yma yr holl wybodaeth berthnasol y mae'n ofynnol i ni yn gyfreithiol ei ddarparu, gan gynnwys rhestr o aelodau'r Corff Llywodraethwyr, ac os oes unrhyw fater yr hoffech gael rhagor o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu ậ mi neu unrhyw un o'r llywodraethwyr drwy swyddfa'r ysgol. Rydym yn wirfoddolwyr di-dậl sydd wedi derbyn hyfforddiant statudol, ac mae llawer o'n gwaith yn gweithredu y tu allan i lygad y cyhoedd, felly hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'n Is-gadeirydd, Jenny Williams, a chyd-lywodraethwyr eraill am eu hymroddiad, eu hamser ac ymrwymiad er budd yr holl ddisgyblion a gwelliant parhaus yr ysgol.

**Tomos Phillips**
**Cadeirydd y Llywodraethwyr**

Miss Evans and the staff in preparing for this. One of our roles as governors is to act as a 'critical friend', and in our discussions with Miss Evans and other members of the Senior Management Team we have been reassured that the school is in an excellent position in terms of its preparations to date and the steps it has put in place to ensure the school will be ready for when the new curriculum is introduced. As well as embracing the challenges that significant change like this can bring, I know that the teaching staff are excited about making the most of the opportunities that will be presented by the new way of teaching.

Governors are, of course, volunteers and through the year we meet at full Governing Body meetings and Committee meetings and attend training sessions – these meetings have continued to take place virtually over the last year. It is hoped that, at some point, we will be able to return to visiting the school in person to see it in action, as we see this as being hugely beneficial in getting a feel for the daily running of the school and its ethos.

My fellow governors and I would like to thank you as parents for your ongoing support of the school. We look forward to working with you and the school staff to ensure the highest standards for all children at Ysgol Mynydd Bychan. I must also mention our incredible PTA, who have once again worked tirelessly and creatively to raise a fantastic amount of money which will directly benefit all pupils of the school – the various events that they organise throughout the year also helps to foster a real sense of community within the school.

You will find in this report all the relevant information which we are obliged by law to provide, including a list of members of the Governing Body, and if there is any matter on which you would like further information, please feel free to contact me or any of governors via the school office. We are unpaid volunteers, who have received statutory training, and much of our work goes on outside the public eye, so I would like to take this opportunity to thank our Vice-Chair, Jenny Williams, and other fellow governors for their dedication, time and commitment for the benefit of all pupils and the continuous improvement of the school.

**Tomos Phillips**
**Chair of Governors**

## Y Corff Llywodraethol *The Governing Body*

**Cadeirydd / *Chairperson***
Mr Tomos Phillips (Cadeirydd / Chairperson)

**Pennaeth / *Headteacher***
Miss Siân Evans

**Clerc i'r llywodraethwyr / *Clerk to the Governors***
Mrs Ann Williams

**Cynrychiolwyr Awdurdod Lleol /*Local Authority Representatives***

| | |
|---|---|
| Dr Andrew Connell | 28/06/18 – 27/06/22 |
| Mr Rhys Taylor | 24/11/20 - 23/11/24 |
| Mr Cerith Jones | 24/07/20 – 23/07/24 |

**Cynrychiolydd Athrawon / *Teacher representative***

| | |
|---|---|
| Mr Iolo Williams | 9/11/19 – 8/11/23 |

**Cynrychiolydd staff / *Staff representative***

| | |
|---|---|
| Miss Rachel Chugg | 9/11/19 – 8/11/23 |

**Rhiant Lywodraethwyr / *Parent Governors***

| | |
|---|---|
| Mrs Jenny Williams (Is Gadeirydd / Vice Chairperson) | 13/12/17 – 12/12/21 |
| Mr Ian Timbrell | 13/12/17 – 12/12/21 |
| Mrs Ruth Frost | 6/11/18 - 15/11/22 |
| Dr Bethan Phillips | 19/04/21 – 18/04/25 |

**Llywodraethwyr cymunedol / *Community members***

| | |
|---|---|
| Mr Tomos Phillips | 19/12/18 – 18/12/22 |
| Miss Suzanna Nesom | 04/02/20 – 04/02/24 |

## Swyddogion ac Is-bwyllgorau – 2020 - 2021 - Officers and sub-committees

| | |
|---|---|
| **Cynrychiolydd Iechyd & Diogelwch / Health and Safety Representative** | Andrew Connell |
| **Amddiffyn Plant / Child Protection** | Carys Jones |
| **Pontio rhwng CA2/3 / Transition between KS2/3** | Ruth Frost, Jenny Williams |
| **Cydraddoldeb / Equality** | Jenny Williams<br>Suzanna Nesom |
| **E-ddiogelwch / E-Safety** | Tomos Phillips |
| **Presenoldeb / Attendance** | Rachel Chugg |

**Cyllid / Finance**
Jenny Williams, Tomos Phillips, Suzanna Nesom, Sian Evans

**Safle, Iechyd a Diogelwch ac Amddiffyn Plant / Site, Health and Safety and Child Protection**
Andrew Connell, Rachel Chugg, Carys Jones, Siân Evans, Tomos Phillips, Jenny Williams

**Cwricwlwm; Anghenion Arbennig / Curriculum; Special Needs**
Ian Timbrell, Carys Jones, Sian Evans, Iolo Williams, Rhys Taylor, Ruth Frost, Jenny Williams, Andrew Connell, Suzanna Nesom, Cerith D Rhys Jones

**Staff, Cyflogau ac Apwyntiadau / Staff, Salaries and Appointments;**
Iolo Williams, Jenny Williams, Carys Jones, Siân Evans, Ian Timbrell

**Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo / Disciplinary and Dismissal Committee**
Andrew Connell, Siân Evans, Iolo Williams, Ian Timbrell

**Pwyllgor Apêl Disgyblu a Diswyddo / Disciplinary and Dismissal Appeals Committee**
Tomos Phillips, Ruth Frost, Rhys Taylor

**Pwyllgor Disgyblu a Gwahardd Disgyblion / Pupil Disciplinary and Exclusion Committee**
Iolo Williams, Carys Jones, Siân Evans, Ian Timbrell

**Rheoli Perfformiad / Performance Management**
Carys Jones, Jenny Williams, Andrew Connell

## Beth yw llywodraethwr? *What is a Governor?*

Mae llywodraethwr yn rhywun sydd:-

- Yn wirfoddolwr;
- Yn poeni am addysgu, dysgu a phlant;
- Yn cynrychioli pobl gyda diddordeb allweddol yn yr ysgol, yn cynnwys rhieni, staff, y gymuned leol a'r AALl;
- Yn aelod o dîm sy'n derbyn cyfrifoldeb am bopeth y mae ysgol yn ei wneud;
- Ag amser i'w roi i gyfarfodydd a digwyddiadau eraill pan fo angen;
- Yn fodlon dysgu;
- Yn gallu bod yn ffrind sy'n cefnogi'r ysgol ond sydd hefyd yn gallu cadw golwg feirniadol ar sut y mae'r ysgol yn gweithio ac ar y safonau a gyflawnir;
- Yn ddolen gyswllt rhwng rhieni, y gymuned leol, yr AALl a'r ysgol.

Cynhelir cyfarfod o'r Corff Llywodraethol o leiaf unwaith y tymor a threfnir cyfarfodydd ychwanegol o'r is-bwyllgorau yn dymhorol neu yn fwy aml yn ôl y galw. Mae gan bob llywodraethwr hefyd ddiddordeb pynciol arbennig, a gall ymweld â'r ysgol neu sgwrsio gyda'r athro sy'n gydlynydd pwnc er mwyn deall a chefnogi'r addysg.

Beth yn union mae Llywodraethwyr yn ei wneud?

1. Cytuno ar amcanion a gwerthoedd yr ysgol
2. Cytuno ar bolisïau yn ymwneud â nodau, dibenion ac ymarferion yr ysgol
3. Dylanwadu ar a chymeradwyo Cynllun Gwella Ysgol a monitro dyraniad a gwariant cyllideb yr ysgol
4. Sicrhau bod y cwricwlwm cenedlaethol yn cael ei ddysgu a bod digon o staff ar gael i'w ddysgu
5. Monitro ac adolygu cynnydd yr ysgol

A governor is someone who:-

- Is a volunteer;
- Cares about teaching, learning and children;
- Represents those people with a key interest in the school, including parents, staff, the local community and the LEA;
- Is part of a team which accepts responsibility for everything a school does;
- Has time to commit to meetings and other occasions when needed;
- Is willing to learn;
- Is able to act as a friend who supports the school but is still able to cast a critical eye upon how the school works and the standard it achieves;
- Acts as a link between parents, the local community, the LEA and the school.

The Governing Body meets at least once a term and additional sub-committee meetings are held every term or more frequently as necessary. Each governor also has a subject area of interest, and he/she can visit the school or discuss with the teacher subject co-ordinator in order to understand and support the way that subject is taught.

What exactly do Governors do?

1. Agree the aims and values of the school
2. Agree policies relating to the aims, purposes and practices of the school
3. Influence and approve the School Improvement and monitor the allocation and expenditure of the budget
4. Make sure the national curriculum is taught and there is sufficient staff to teach it

| | |
|---|---|
| 6. Sicrhau bod anghenion disgyblion unigol yn cael eu cwrdd, gan gynnwys anghenion ychwanegol<br>7. Recriwtio a Dewis Staff<br>8. Rhoi gwybodaeth i rieni am yr ysgol<br>9. Cynhyrchu a monitro Cynllun Datblygu Ysgol yn flynyddol a chynlluniau gweithredu gwelliant yn dilyn arolwg ysgol<br>10. Cymeradwyo a Monitro targedau'r ysgol.<br>11. Cefnogi'r penderfyniadau a wneir o ddydd i ddydd gan y pennaeth<br>12. Cynnal cysylltiadau cadarnhaol gyda'r gymuned leol<br>13. Hybu effeithiolrwydd y corff llywodraethu | 5. Monitor and review the school's progress<br>6. Ensure individual pupils' needs are met, including additional needs.<br>7. Recruitment and Selection of Staff<br>8. Give parents information about the school<br>9. Produce and monitor the yearly School Development Plan and action plans for improvement following school inspections<br>10. Agree and monitor the targets set by the school.<br>11. Support the day-to-day operational decisions taken by the head teacher<br>12. Maintain positive links with the local community<br>13. Promote the effectiveness of the governing body |

| | |
|---|---|
| **Presenoldeb - 03/09/20 – 16/07/21**<br>**(sy'n cynnwys y cyfnod clo Tymor y Gwanwyn 2021)**<br><br>Presenoldeb - 96.1 %<br>Absenoldeb â chaniatâd - 2.8%<br>Heb ganiatâd - 1.1%<br><br>Mae gan yr ysgol strategaeth sy'n cynnwys cylchlythyru rhieni/gwarcheidwaid yn gyson ynglŷn â lefelau presenoldeb plant. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r Swyddog Presenoldeb, os yw'r ysgol yn pryderu am absenoldeb plentyn yna mae'r Swyddog Presenoldeb yn cysylltu gyda'r teulu i drafod ac i gynnig cymorth. Ein targed fel ysgol yw presenoldeb o dros 96.3%.<br><br><u>Hysbysiad Cosb Benodedig</u><br>Mewn rhai amgylchiadau, bydd yr ysgol efallai yn gofyn bod y Gwasanaeth Lles Addysg i gyhoeddi rybudd o Hysbysiad Cosb Benodedig o dan y Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 i rieni / warcheidwaid. Bydd llythyr o rybudd yn cael ei ddanfon os:<br>• Bu 10 sesiwn heb awdurdod o fewn un tymor ysgol;<br>• Mae plentyn wedi bod yn hwyr (ar ôl i'r cofrestr gau) ar 10 achlysur o fewn un tymor ysgol;<br>• Mae rhieni / warcheidwaid wedi methu cymryd rhan mewn ymdrechion i wella presenoldeb;<br>• Mae'r heddlu wedi dod o hyd i ddisgybl yn rheolaidd o fod yn absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol. | **Attendance- 03/09/20 – 16/07/21,**<br>**(this includes the 2021 Spring Term lockdown)**<br><br>Attendance - 96.1%<br>Absences with permission - 2.8%<br>Without permission - 1.1%<br><br>This school has a strategy which includes corresponding with parents/guardians on a regular basis regarding children's attendance levels. The school works closely with the Attendance Officer. If the school has a concern over the absence of a pupil, the Attendance Officer will work with the family offering them support and guidance. Our school target for attendance is over 96.3%.<br><br><u>Fixed Penalty Notices</u><br>In some circumstances, the school may request the Educational Welfare Service to issue parents/carers with a Fixed Penalty Notice under the Education (Penalty Notices) (Wales) Regulations 2013. A warning letter will be sent first if:<br>• There have been 10 unauthorised sessions within one school term;<br>• A child has been late (after registration has closed) on 10 occasions within one school term;<br>• Parents/carers have failed to engage in attempts to improve attendance;<br>• The police have regularly found a pupil to be absent from school without an acceptable reason.<br><br>A Fixed Penalty Notice will be issued if: |

| | |
|---|---|
| Bydd Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei gyhoeddi os:<br>• Mae un absenoldeb anawdurdodedig pellach o fewn 15 diwrnod ysgol o lythyr rhybudd yn cael ei gyhoeddi;<br><br>Pan fydd yr ysgol yn teimlo bod, er gwaethaf ei hymdrechion gorau i gefnogi'r teulu, nid yw presenoldeb yn gwella, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud at y Gwasanaeth Lles Addysg. Gallai atgyfeiriad cael ei wneud pan, er enghraifft:<br>• Mae patrwm o bresenoldeb afreolaidd wedi datblygu;<br>• Mae cyfnod o ddiffyg presenoldeb di-syfl wedi ei sefydlu;<br>• Mae diffyg cydweithrediad rhieni wrth sicrhau presenoldeb afreolaidd plentyn<br>Bydd Ysgol Mynydd Bychan yn cysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg i ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i erlyn rhieni sy'n methu, heb gyfiawnhad rhesymol, i beri i'w plentyn fynychu'r ysgol yn rheolaidd, o dan adrannau 444 (1) a 444 (1A) o Deddf Addysg 1996. | • There is one further unauthorised absence within 15 school days of a warning letter having been issued;<br>•<br>When the school feels that, despite its best efforts to support the family, attendance is not improving, a referral will be made to the Education Welfare Service. A referral might be made when, for example:<br>•A pattern of irregular attendance has developed;<br>•A period of entrenched non-attendance has become established;<br>•There is a lack of parental cooperation in ensuring a child's regular attendance<br><br>Ysgol Mynydd Bychan will liaise with the Education Welfare Service to provide the evidence required to prosecute parents who fail, without reasonable justification, to cause their child to attend school regularly, under sections 444(1) and 444(1A) of the Education Act 1996. |

| **Targedau** | **Targets** |
|---|---|
| Mae'n holl bwysig ein bod yn gosod targedau sy'n berthnasol i'r ysgol hon ac yn anelu at godi safonau disgyblion unigol yn hytrach na chanolbwyntio ar ganrannau moel. Rhaid creu targedau gan gofio bod natur disgyblion yn amrywio o ddosbarth i ddosbarth. Y peth pwysig yw bod pob disgybl yn cael ei annog i ymdrechu ac i gyflawni i'w lawn botensial. Mae ein safonau yn gyffredinol uwch na'r safonau cenedlaethol. | It is essential that we set targets that are relevant to this school and strive to raise standards for individual pupils rather than focusing on bare percentages. Whilst setting targets, it is important to give consideration to the fact that a class cohort may vary from one year to another. The important thing is that each pupil is encouraged to give 100% effort and to reach their personal potential. Our standards moreover are generally higher than the national. |

**Targedau Cyfnod Sylfaen a ChA 2 2022** ***Foundation Phase and KS2 Targets 2022***

Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase Deilliant 5+ / Pupils achieving Oucome 5+
Bechgyn / Boys – 91.7% Merched / Girls – 100% Disgyblion / All pupils – 96.8%

Cyfnod Allweddol 2 / Key Stage 2 Lefel 4+ / Pupils achieving Level 4+
Bechgyn / Boys – 100% Merched / Girls – 100% Disgyblion / All pupils – 100%

## Polisïau'r Ysgol / School Policies

Adolygwyd y polisiau a'r dogfennaeth canlynol eleni mewn ymgynghoriad gyda'r staff a'r llywodraethwyr. Mae pob polisi ar gael yn yr ysgol i'w gweld trwy drefniant gyda'r Pennaeth.

The following policies and documents were reviewed and adopted this year in consultation with staff and governors. All policies are available to view in the school by prior arrangement with the Headteacher.

| | |
|---|---|
| Polisi Codi Tâl a Dileu | Charging and Remissions Policy |
| Polisi Diogelu | Safeguarding Policy |
| Polisi Cwyn | Complaints Policy |
| Polisi Gwrthfwlio | Antibullying Policy |
| Polisi Diogelu Data | Data Protection Policy |
| Polisi Rhyddid Gwybodaeth | Freedom of Information Policy |
| Polisi Amseroedd Sesiynau Ysgol | School Session Times |
| Polisi Rheoli Perfformiad | Performance Management Policy |
| Polisi Preifatrwydd Ysgol Mynydd Bychan | YMB'S Privacy Policy |
| Polisi Cam Ddefnyddio Sylweddau | Substance Misuse Policy |
| Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth | Behaviour and Discipline Policy |
| Polisi Addysg Rhyw a Pherthnasedd | Sex Education and Relationships Policy |
| Polisi Iechyd a Diogelwch | Health and Safety Policy |
| Polisi Hygyrchedd | Accessibility Policy |

# Crynhoi'r flwyddyn — A summary of this year

| **Cynllun Gwella'r Ysgol / Cwricwlwm** | **School Improvement Plan / Curriculum** |
|---|---|
| Gosodwyd blaenoriaethau clir ar gyfer 2020/21.<br>• Sicrhau bod pob disgybl yn derbyn yr her briodol gan gynnwys y rhai sydd ar y gofrestr MATh ac ADY<br>• Ymwreiddio athroniaeth ac egwyddorion addysgeg Cwricwlwm 2022 trwy'r ysgol.<br>• Parhau i ymwreiddio a datblygu medrau cymhwysedd digidol yn drawsgwricwlaidd | Clear priorities were set out for 2020/21.<br>• To ensure that all pupils receive the appropriate challenge including those on the MAT and ALN register.<br>• To continue to embed the philosophy and principles of the 2022 Curriculum pedagogy throughout the school<br>• To continue to embed and develop cross-curricular digital competence skills |
| Mae plant Bl 2 – 6 yn eistedd y profion canlynol yn mis Mai bob blwyddyn: Prawf darllen Cymraeg i Fl 2 – 6; prawf darllen Saesneg i F4 – 6; prawf rhifedd a rhesymu Bl 2 – 6. Mae'r prawf rhifedd gweithdrefnol a darllen ar lein .Os ydych am wybodaeth pellach am y profion, ewch i wefan www.dysgucymru.gov.uk. | Pupils from Years 2, 3 4, 5 and 6 sit the following tests in May each year: Welsh Reading Test: Years 2 – 6; English Reading Test: Years 4 – 6; Numeracy and Reasoning test: Years 2 – 6. The procedural numeracy and reading tests are online tests. If you would like further information regarding these tests please log onto the following website www.learningwales.gov.uk. |
| Defnyddir system dracio 'Assessment Foundation' i asesu deilliant Cyfnod Sylfaen a lefel cwricwlwm pob plentyn ym mhob maes y | The school uses the Assessment Foundation tracking system to assess at which Foundation Phase outcome or Curriculum level your child is |

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen. Asesir disgyblion y Feithrin, Derbyn, Bl 1 a 2 yn chwe maes y Cyfnod Sylfaen ac fe asesir disgyblion Bl 3, 4, 5 a 6 yn 4 pwnc Cwricwlwm 2015 sef Mathemateg, Cymraeg,Saesneg a Gwyddoniaeth ynghyd â 8 pwnc arall Cwricwlwm 2008.<br><br>Mae'r athrawon yn medru asesu eich plant yn drylwyr gan ddefnyddio system dracio Incerts drwy edrych ar y dystiolaeth o lefel gwaith eich plentyn yn y dosbarth ac yn eu llyfrau.<br><br>Mae'r athrawon yn cymedroli a chyd-safoni gwaith plant fel bod pawb yn deall safon darnau o waith e.e beth ydym yn disgwyl gweld mewn darn o waith ysgrifenedig Lefel 4, darn o waith Mathemateg deilliant 5, ymchwiliad Gwyddonol lefel 5? Mae hyn oll yn sicrhau bod gennym ddarlun clir o wir safon pob plentyn ar draws y flwyddyn academaidd ym mhob pwnc.<br><br>Llongyfarchiadau i bob disgybl ym Ml 6 2021 am ennill tariannau 'Seren y flwyddyn'; rhoddir y tariannau i blant sydd wedi ymroi yn llwyr i fywyd yr ysgol ers iddynt ddechrau yn Ysgol Mynydd Bychan. Eleni ni chafodd Bl 6 blwyddyn olaf arferol yn yr ysgol oherwydd Covid-19. Felly roedd pob aelod o staff yn unfrydol yn teimlo bod pob disgybl ym Ml 6 yn haeddu ennill y wobr hon. | currently working on. Pupils in Nursery, Reception, Years 1 and 2 are assessed in the six areas of learning within the Foundation Phase; pupils in Years 3, 4, 5 and 6 are assessed in 4 subjects from the 2015 National Curriculum which are Maths, Welsh, English and Science as well as the other 8 Curriculum 2008 subjects.<br><br>The teachers are able to thoroughly assess each child's standard of work by looking at the evidence in their work books and during daily lessons, throughout the academic year.<br><br>Teachers moderate children's work so that there is a clear understanding what to expect of a piece of work e.g. what does a level 4 piece of writing or a Foundation Phase outcome 4 for Mathematics or a level 5 concise account of a science experiment look like? All this daily assessment of the children's work ensures that we have a clear and true picture of each child's standard and ability across every subject throughout the academic year.<br><br>Congratulations to all 2021 Year 6 pupils for being awarded the 'Star Pupil Award'. This is usually awarded to a pupil / pupils who have given much to school life since they started with us in the Nursery. This year, Year 6 did not have a 'normal' last year in school due to Covid-19. Therefore, all members of staff were in complete agreement that every pupil in Year 6 deserved to win this award. |

| Allgyrsiol | Extracurricular |
| --- | --- |
| Mae'r holl weithgareddau allgyrsiol yn rhy niferus i'w henwi i gyd, ond dyma rai uchafbwyntiau. Fe welwch fod yma dystiolaeth i fwrlwm o weithgaredd a brwdfrydedd mawr.<br>• Yn anffodus oherwydd cyfyngiadau Covid nid oedd modd cynnal ein clybiau allgyrsiol arferol fel Pêl Rwyd (Hydref a Gwanwyn), Côr, Rygbi, Pêl Droed, Pêl Fas (Haf), Clwb Darllen, Clwb Cyfnod Sylfaen, Clwb Creadigol, Clwb Dawns, Clwb Cardiau a Chlwb Lego.<br>• Mae'r Gwasanaethau Nadolig yn ddigwyddiad pwysig bellach yng nghalendr holl rieni a ffrindiau'r ysgol. Llynedd fe greodd dosbarthiadau'r Meithrin a Derbyn fideo o'u gwasanaethau Nadolig hwy a'i ddanfon at eu rhieni i fwynhau adref. Cafodd blant Bl 1 - 6 gyfle unigryw a gwych wrth greu eu gwasanaeth Nadolig. Cawsant y cyfle i ddefnyddio camera, system sain a goleuadau a pherfformio o flaen y sgrîn werdd.<br>• Oherwydd cyfyngiadau Covid doedd dim modd cynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni eto. Ond yn 2021, roedd Eisteddfod T yn ei ôl! Eisteddfod T ydi Eisteddfod yr Urdd mewn fformat rhithiol sy'n rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ledled Cymru a thu hwnt i gystadlu o'u cartrefi. Llongyfarchiadau i Tate Barbrook Stephens, Bl 6, am ddod yn ail yn Eisteddfod T yn y gystadleuaeth Anifail Anwes Talentog.<br>• Fe wnaeth yr ysgol ddathlu pen-blwydd T Llew Jones a Roald Dahl drwy wneud llu o weithgareddau a oedd yn seiliedig ar eu gwaith.<br>• Mae'r Pwyllgor Eco, Cyngor Ysgol, Criw Cymry Cŵl, Pwyllgor Iechyd a Lles, Arweinwyr Digidol a'r Llysgenhadon Lles wedi hen ennill eu lle yn yr ysgol bellach | The extracurricular activities are too numerous to name them all, but here are some of the highlights. You will see that there is plenty of evidence to show the school's enthusiasm.<br>• Unfortunately, due to Covid restrictions we were unable to hold our usual extracurricular clubs namely Netball (Autumn and Spring), Choir, Rugby, Baseball (Summer), Football, Reading, Foundation Phase, Creative Arts, Dance, Keep Fit, Cards and a Lego Club.<br>• The Christmas Concerts are also an important part of the calendar of all parents and friends of the school. The Nursery and Reception classes filmed their own Christmas Services, which were then forwarded to their parents to enjoy at home. Year 1 - 6 pupils had a unique and wonderful opportunity when creating their Christmas Service. They had the opportunity to use a camera, a sound and lighting system and to perform in front of the green screen.<br>• Due to the ongoing Covid restrictions it was not possible to hold the Urdd National Eisteddfod again this year. Eisteddfod T was back! Eisteddfod T is a virtual festival held for the first time in 2020 during the lockdown period, giving children and young people from Wales and beyond a chance to take part in a virtual, fun-filled Eisteddfod from the comfort of their homes. Congratulations to Tate Barbrook-Stephens, Year 6, for coming second in the Talented Pet competition in Eisteddfod T.<br>• The school celebrated Roald Dahl and T Llew Jones Day by taking part in numerous activities based on their novels and poems.<br>• The Eco Committee, School Council, Health and Wellbeing Committee, Welsh Group, Digital Leaders and the Wellbeing Ambassadors are an integral part of school life. |

| | |
|---|---|
